18.30 – 19.00 Cyflwyniad gan Richard Shirres – Risg Llifogydd
Cafwyd cyflwyniad Powerpoint ar sefyllfa argyfyngus tref Porthmadog yn wyneb y peryglon o lifogydd petai lefel y môr yn codi ar y raddfa a ragwelir gan yr arbenigwyr. Roedd Mr Shirres eisoes wedi rhannu taflenni gwybodaeth i'r Cynghorwyr a bu'n egluro ymhellach rai o'r manylion. Roedd yn pwysleisio fod angen ymateb fel cymuned gyfan i'r bygythiad a chynllunio i weithredu yn fuan iawn.

Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Medi 10 2024

84.9.24 Presennol:- Cynghorwyr :- Aled Griffith (Cadeirydd); Alwyn Gruffydd; Gwilym Jones; Carol Hayes; Karena Owens; Dr Melfyn Edwards; Llywelyn Rhys; Michael Roberts
Marian Roberts (Clerc)
Absennol :- Cyng Trefor Jones
85.9.24 Ymddiheuriadau:- Cyng Sandra Bodden Jones; Cyng John Gwynedd Roberts (Is-Gadeirydd)

86.9.24 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-
Cyfarfod Llawn Gorffennaf 9 2024
Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Michael Roberts yn eilio.
Cyfarfod Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 30.7.24
Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Michael Roberts yn eilio.

Roedd Cyng Carol Hayes yn dymuno cofnodi ei diolch i'r Clerc am ei gwaith yn datrys problem gyda pherchennog siop yn Bank Place. Yn dilyn llythyr gan y Clerc ar ran Cyng Hayes mae'r mater wedi ei ddatrys yn llwyddiannus ac roedd Cyng Hayes yn hynod o ddiolchgar.

87.9.24 Adroddiad y Clerc
Cafwyd diweddariad am y cynlynol :-

- **Giât newydd Cae Bodawen** – G.L.Jones am ddarparu giât goch a 'railings' galvanised.
- Canllawiau **Bryn Coffa** wedi eu gosod yn eu lle.
- Cyflwyniad rhodd i **Medi Harris** wedi digwydd ar 16.8.24 ac wedi bod yn achlysur llwyddiannus.
- **Cae Pawb** – diwrnod agored ar 17.8.24 wedi bod yn llwyddiant ac wedi casglu dros £500 i'w rannu ag achosion da.
- Nodwyd fod y Cyngor Tref dal yn gorfod talu am gwrs Un Llais Cymru os yw Cynghorydd yn mynychu ai peidio.
- **National Grid – Cae Bodawen** – cafwyd cyfarfod safle ar 28.8.24 a nodwyd fod y gwaith cloddio i fod i ddechrau ym mis Medi 2025 ac yn gorffen erbyn 2028. Nodwyd fod y Clerc wedi derbyn ebost gan Nat. Grid yn gofyn am restr a phrisiau offer chwarae newydd ar gyfer Cae Bodawen erbyn 26.9.24. Awgrymwyd y dylid cynnal cyfarfod arbennig o'r Is-Bwyllgor Eiddo i drafod y mater er mwyn ymateb o fewn yr amser.
- Cafwyd cyfarfod gyda swyddogion Menter Bro Ffestiniog ar 6.9.24 a Swyddog Cymunedoli Cyngor Gwynedd, Haydn Jones, i drafod y ffordd ymlaen ynglyn â dablygu'r Ganolfan fel menter fusnes (Menter Madog). Bydd Haydn Jones yn cyfarfod gyda swyddogion y Ganolfan i

drafod ymhellach.

- **Band yr Oakeley** – wedi cytuno i berfformio yn y Parc ar noson Goleuo Port 29.11.24
- **Dathlu Gŵyl Oman** – roedd y Cyngor Tref wedi cael gwahoddiad i Glwb Peldroed Porthmadog i ddathliadau'r ŵyl hon gan gymdeithas Indiaid Porthmadog a Phwllheli. Bu Cynghorwyr Carol Hayes, Trefor Jones ac Alwyn Gruffydd yn mynychu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu sawl cyfarfod dros y misoedd diwethaf – mae wedi bod yn gyfnod prysur.

88.9.24 Datgan diddordeb.
Dim datganiad o ddiddordeb

89.9.24 CEISIADAU CYNLLUNIO

(a) Rhif Cais / Application No.: C24/0560/44/LL (wedi ebostio 2.8.24)
Lleoliad / Location : Bargain Booze Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Gwynedd, LL49 9UY
Bwriad / Proposal: Newid defnydd siop wag i ddefnydd pryd poeth i'w gario allan (Pysgod a Sglodion) dosbarth A3 a gosod system awyru cegin
Change of use of empty store for takeaway (Fish and Chips), class A3 and installation of kitchen ventilation system.
Penderfynwyd :- gwrthwynebu'r cais cynllunio am y rhesymau canlynol :-

- Mae'n or-ddatblygiad
- Mae gormod o fusnesau mewn ardal fechan
- Mae siop pysgod a sglodion arall yn agos iawn
- Byddai'n achosi problemau parcio / mynediad i Lôn Gwydryn
- Byddai'n achosi mwy o draffic mewn lle cyfyng
- Byddai'n creu anhawster i drigolion lleol
- Mae Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu
- Mae Awdurdod Iechyd Betsi Cadwaladr yn gwrthwynebu creu mwy o siopau gwerthu prydau parod er lles iechyd y gymuned

yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

(b) Rhif Cais / Application No.: C24/0595/44/LL (wedi ebostio 8.8.24)
Lleoliad / Location: 7, The Oakeleys Cei Oakley, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AJ
Bwriad / Proposal: Amnewid drysau patio pren presennol gyda drysau Upvc i gyd-fynd â'r rhai a gymeradwywyd yn flaenorol ar gyfer Fflat 10 yn The Oakleys o dan y cyfeirnod cais C22/0246/44/DT a gymeradwywyd ar 18 Mai 2022.
Replacement of existing timber patio doors with Upvc doors to match those previously approved for Flat 10 at The Oakleys under application reference C22/0246/44/DT which was approved on 18th May 2022.
Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(c) Rhif Cais / Application No.: C24/0608/44/YA (wedi ebostio 14.8.24)
Lleoliad / Location: Fferm Pensyflog Pensyflog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9PW
Bwriad / Proposal: Sied amaethyddol ar gyfer storio peiriannau ac offer
Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(ch) Rhif Cais / Application No.: C24/0560/44/LL (wedi ebostio 2.9.24)
Lleoliad / Location: Bargain Booze Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Gwynedd, LL49 9UY
Bwriad / Proposal: Newid defnydd siop wag i ddefnydd pryd poeth i'w gario allan a siop goffi, dosbarth A3 a gosod system awyru cegin

Penderfynwyd :- gwrthwynebu'r cais cynllunio am yr un rhesymau ag yng nghais (a) uchod.

MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF

90.9.24 Cymeradwyo penderfyniadau'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 30.7.24
Cymeradwywyd y penderfyniadau'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo 30.7.24 yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd.

91.9.24 Ethol cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol y Gorlan
Nodwyd fod llawer o'r Cynghorwyr eisoes wedi bod ar y bwrdd Llywodraethol felly
Penderfynwyd :- gadael y mater tan gyfarfod mis Hydref.
Nododd y Clerc fod Pennaeth Ysgol Eifion Wyn wedi bod mewn cysylltiad yn gofyn am gynrychiolydd ar eu Bwrdd Llywodraethol yn dilyn ymddiswyddiad Cyng Llywelyn Rhys fel cynrychiolydd y Cyngor Tref.
Penderfynwyd :- cytunodd Cyng Karena Owens i gynrychioli'r Cyngor Tref a bydd y Clerc yn hysbysu'r ysgol o fanylion cyswllt Cyng Owens.

Cododd Cyng Llywelyn Rhys fater o drefn yn datgan ei anfodlonrwydd fod y Clerc wedi gwrthod cynnwys 2 gynnig ganddo ar raglen cyfarfod heno. Eglurodd y Clerc ei bod wedi ymateb i'r cais drwy nodi ei rhesymau dros ei phenderfyniad.
Penderfynwyd:- diwygio'r cynigion a'u cynnwys ar raglen 8.10.24 yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd.

MATERION I'W DWYN GERBRON :-

92.9.24 Cyng Alwyn Gruffydd :- cynnig ymateb fel corff i lythyr Ken Skates (Gohebiaeth 7)
Penderfynwyd :- y Clerc i lenwi'r holiadur ar ran y Cyngor Tref a datgan bodlonrwydd gyda'r cyfyngiad 20m.y.a. presennol a bod angen lleihau y cyfyngiad cyflymder o drofan Tremadog i Penmorfa o 40 m.y.a. i 30m.y.a.

93.9.24 Cyng Aled Griffith :- cynnig bod y Cyngor Tref yn trefnu i brynu, gosod a chynnal diffibriliwr yn Y Ganolfan.
Penderfynwyd :- trafod y mater ar y cyd gyda Gohebiaeth 1(99.9.24).

94.9.24 Cyng Llywelyn Rhys - Cynnig gwneud cais i Gyngor Gwynedd i weithredu cynllun wrth gefn i agor mynediad Lôn Gwydryn pan mae traffig i draeth y Graig Ddu yn mynd yn ormod.
Roedd Cyng Gwilym Jones yn rhestru rhai o'r rhesymau pam nad yw Cyngor Gwynedd yn fodlon defnyddio Lôn Gwydryn fel a ganlyn :-

- Trigolion Lôn Gwydryn ddim yn fodlon
- Cyngor Gwynedd isio cadw un mynediad argyfwng i'r traeth
- Dim digon o staff
- Tywod mynedfa Lôn Gwydryn yn rhy feddal i geir ei ddefnyddio
- Sustem un ffordd ddim yn gweithio

Clywyd hefyd am drafferthion cyffredinol defnyddio ffordd Treflys, Morfa Bychan a'r tagfeydd rheolaidd yn Bank Place.
Penderfynwyd:- diwygio'r cynnig i " Cynnig gofyn i Gyngor Gwynedd ail-edrych ar sustem drafnidiaeth traeth Morfa Bychan, Treflys a Bank Place ar adegau prysura'r flwyddyn" yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Carol Hayes yn eilio.

95.9.24 Cyng Carol Hayes :- Cynnig bod Cyngor Tref Porthmdog yn mabwysiadu polisi i amddiffyn enwau Cymraeg lleol.
Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig ac ychwanegu ato i ysgrifennu i Lywodraeth Cymru yn apelio arnynt i ddeddfu bod angen Caniatâd Cynllunio i newid enw tŷ yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.

DRAFT

96.9.24 Cyng Gwilym Jones :- cynnig cefnogi cynllun Cyfeillion Borth y Gest i osod silffoedd llyfrau yn y lloches bws.
Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig a nodi mai cais ydoedd gan 2 o drigolion Borth y Gest ac **nid** cais gan Gyfeillion Borth y Gest.

97.9.24 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. *Dyddiad cau Hydref 8 2024 = Medi 30 2024 , (Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

- **Ethol cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol y Gorlan**
- **Cyng Llywelyn Rhys :-** cynnig datgan anfodlonrwydd am leoliad presennol y ddraig.
- **Cyng Llywelyn Rhys:-** cynnig gwneud cais i bwyllgor y Ganolfan i aelodau'r Cyngor Tref gael parcio am ddim tra'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor Tref.
- **Cyng Aled Griffith :-** cynnig gweithredu i ddathlu dau-ganmlwyddiant adeiladu'r harbwr.
- **Cyng Aled Griffith:-** cynnig cynyddu amlder cyfarfodydd yr Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo.

98.9.24 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm)**.**
Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a bydd y clerc yn golygu fel bo'r angen.

GOHEBIAETH :

99.9.24	**CYFEILLION BORTH Y GEST**	**Cais i'r Cyngor Tref drefnu i brynu, gosod a chynnal diffibriliwr ar wal allanol toiledau Borth y Gest.** **Penderfynwyd :-** cefnogi cais Cyfeillion Borth y Gest a'r Clerc i holi swyddogion y Ganolfan ynglyn â mater 93.9.24 uchod
100.9.24	**CYNGOR GWYNEDD**	**Cyngor Datblygu Lleol** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth a'r Clerc i ymateb ar ran y Cyngor Tref i nodi :- • bod angen ymestyn y ffin gynllunio i gynnwys tiroedd uwch yn ardal Porthmadog fyddai'n addas i'w datblygu ar gyfer adeiladu tai preswyl yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Michael Roberts yn eilio. Clustnodwyd ardal y Garth; tiroedd uwchben Awel y Grug; tir wrth ochr Ysbyty Alltwen; tir rhwng Porthmadog a Borth y Gest a Morfa Bychan fel lleoliadau posibl. Nodwyd hefyd fod cwota adeiladu tai Porthmadog wedi mynd i Benrhyndeudraeth a Chricieth yn y gorffennol oherwydd fod y ffin gynllunio yn rhy gyfyngedig. a'r gwellaint :- • bod y Cyngor Tref yn cefnogi safiad Cyngor Cymuned Botwnnog i sicrhau tai i siaradwyr Cymraeg yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.
101.9.24	**RICHARD WILLIAMS**	**Meinciau ar lwybr y Cob** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ddweud wrth Mr Williams i gyfeirio'r mater i sylw Cyngor Gwynedd gan mai nhw yw perchennog y Cob.
102.9.24	**RICHARD SHIRRES**	**Ymateb i 53.6.24 derbyn gwahoddiad i gyfarfod mis Medi** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth
103.9.24	**CYNGOR GWYNEDD**	**Ymateb i 77.7.24 Crêpes yn Pencei** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth
104.9.24	**DAMIAN**	**Taith tractors 15.12.24**

DRAFT

	WILLIAMS	**Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ddiolch am hysbysu'r Cyngor Tref; am gynnwys Porthmadog ar y daith ac i ofyn am bosteri neu hysbys i'w rannu i hysbysebu'r digwyddiad.
105.9.24	**KEN SKATES**	**20 m.y.a 76.7.24** Wedi trafod eisoes yn 92.9.24
106.9.24	**UN LLAIS CYMRU**	**Ymateb i 70.7.24 – Cyfraniadau** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth a chynnwys y mater ar raglen mis Hydref.
107.9.24	**CYNGOR GWYNEDD**	**Ymgynghoriad pleidleisio** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth
108.9.24	**BRYN PRITCHARD JONES C.G.**	**Ymateb i 71.7.24 giât i lawr i'r môr** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i :- • ddiolch iddo am ateb mor gynhwysfawr • ddiolch iddo am fwriadu cyfarfod â swyddogion y Clwb Hwylio • ofyn iddo gydnabod bod y grisiau yn eiddo cyhoeddus • ofyn iddo weithredu i newid yr arwydd ar y giât o " fynediad preifat" i "fynediad cyhoeddus" a dileu M.Y.C oddiar y giât gan mai eiddo cyhoeddus yw'r grisiau ac nid eiddo'r Clwb Hwylio • yrru ymlaen ato gopi o ymateb Cadw i'r mater yn ôl cynnig Cyng Llywelyn Rhys, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio. **Gadawodd Cyng Llywelyn Rhys y cyfarfod**
109.9.24	**TRAFNIDIAETH CYMRU**	**Ymateb i 79.7.24 T2** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth a gyrru gwahoddiad unwaith yn rhagor iddynt ddod i gyfarfod y Cyngor neu ddod i gyfarfod y Cynghorwyr ar y safle yn Nhremadog.
110.9.24	**FFION JOHNSTONE – BETSI CADWALADR**	**Ymateb i 73.7.24 cefnogi meddygfa newydd ar safle'r Coliseum** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth
111.9.24	**PCSOs**	**Ymateb i wahoddiad i gyfarfod 8.10.24** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth
112.9.24	**CADW**	**Ymateb i 71.7.24 grisiau'r môr wrth y Clwb Hwylio** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth
113.9.24	**FFION GWYN**	**Ymateb i E3.7.24 bwrdd dehongli Madocks** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth a phasio'r mater ymlaen i'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo.
114.9.24	**GARETH JONES C.G.**	**Ymateb i 72.7.24 Camper vans** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth
115.9.24	**CYNGOR GWYNEDD**	**Cyfarwyddyd Erthygl 4** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth
116.9.24	**G.L.JONES**	**Adroddiad archwiliad blynyddol offer chwarae Cae Bodawen** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth
117.9.24	**GLASFRYN**	**Dim coed Nadolig!** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth a bydd y Clerc yn gweithredu i ddatrys y broblem yn fuan.
118.9.24	**GLENDA MURRAY**	**Cais i gael cyfethol yn Gynghorydd Tref** **Penderfynwyd :-** Derbyn y wybodaeth a chyfethol Glenda

DRAFT

		Murray gyda chroeso yn Gynghorydd Tref dros y Ward Orllewinol. Bydd y Clerc yn cysylltu â hi i'w hysbysu.

119.9.24 MATERION ARIANNOL :

Taliadau Awst 2024

1	Clerc	Llinell ffôn a Wê Gorffennaf 2024	£ 63.37
2	Clerc	Cyflog Clerc Gorffennaf 2024	£1,536.86
3	Cyllid a Thollau ei Fawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Gorffennaf 2024	£386.46
4	GDPR	Diogelu Data 2024-2025	£40.00
5	Criccieth Cleaning	Glanhau llochesi bws	£201.60
6	Bill Swann	Rhodd Medi Harris	£350.00
7	Alan G.Jones	Canllawiau Bryn Coffa	£1140.00

Derbyniadau :

H.S.B.C.	Llog Banc Mehefin Gorffennaf 2024	£55.58
H.S.B.C.	Llog Banc Gorffennaf Awst 2024	£57.53
CYNGOR GWYNEDD	Praesept 2il daliad	£33,481.05

Audurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Michael Roberts yn eilio:-

1	Clerc	Llinell ffôn a Wê Awst 2024	£ 75.06
2	Clerc	Cyflog Clerc Awst 2024	£1,536.86
3	Cyllid a Thollau ei Fawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Awst 2024	£386.46
4	Xerox Finance	Llogi llungopïwr 1.10.24 i 31.12.24	£104.40
5	Un Llais Cymru	Hyfforddiant Y Cynghorydd Modiwl 2 Cyng Karena Owens a Cyng Trefor Jones 13.8.24	£80.00
6	G.L.JONES	Archwiliad blynyddol offer chwarae Cae Bodawen	£337.20
7	ARENA GROUP LTD	Lllungopïo hyd at 15.8.24	£3.28
8	Clerc	Ad-daliad am badiau newydd i Ddiffibriliwr Morfa Bychan	£66.00
9	CYNGOR GWYNEDD	Archwiliad mewnol 2023-24	£444.00

(Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 21.00

Marian Roberts
(Clerc)

DRAFT

DRAFT